# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 4

TRINIAETHAU ARBENNIG

*Meini prawf trwyddedu ac amodau trwyddedu mandadol*

PROSPECTIVE

### 62 Meini prawf trwyddedu

(1) Rhaid i reoliadau nodi meini prawf y mae rhaid eu bodloni ar gais gan unigolyn ("ceisydd") am drwydded triniaeth arbennig er mwyn i'r cais gael ei ganiatáu ("meini prawf trwyddedu").

(2) Rhaid i'r meini prawf trwyddedu a bennir yn y rheoliadau fod yn rhai sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ddangos gwybodaeth am—

(a) rheoli heintiau a chymorth cyntaf, yng nghyd-destun y driniaeth arbennig y mae'r cais yn ymwneud â hi;

(b) y dyletswyddau a osodir, o dan y Rhan hon neu yn rhinwedd y Rhan hon, ar berson sydd wedi ei awdurdodi gan drwydded triniaeth arbennig i roi'r driniaeth arbennig y mae'r cais yn ymwneud â hi.

(3) Caiff y meini prawf y trwyddedu hefyd (ymhlith pethau eraill) ymwneud—

(a) â chymhwystra unigolyn i gael trwydded (gan gynnwys drwy gyfeirio at, ymhlith pethau eraill, safonau cymhwysedd);

(b) â'r fangre neu'r cerbyd y mae rhoi triniaeth arbennig ynddi neu ynddo i gael ei awdurdodi, neu y mae cyfarpar neu ddeunydd a ddefnyddir mewn triniaeth arbennig i gael ei gadw neu ei baratoi ynddi neu ynddo (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, y cyfleusterau sydd ar gael yno a safonau hylendid);

(c) â'r cyfarpar sydd i'w ddefnyddio wrth roi triniaeth arbennig neu mewn cysylltiad â rhoi triniaeth arbennig.

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 62 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(4) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol beidio â dyroddi neu adnewyddu trwydded oni bai bod mangre neu gerbyd a nodir yn y cais wedi ei harolygu neu ei arolygu yn unol â'r rheoliadau at ddiben dyfarnu ar gydymffurfedd â'r meini prawf trwyddedu.

(5) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) mewn cysylltiad—

(a) â disgrifiadau gwahanol o fangreoedd a cherbydau;

(b) â disgrifiadau gwahanol o driniaeth arbennig;

(c) â'r amgylchiadau gwahanol y rhoddir triniaeth arbennig odanynt (gan gynnwys drwy gyfeirio at, ymhlith pethau eraill, pa mor aml neu reolaidd y rhoddir triniaeth arbennig, hyd unrhyw gyfnod y rhoddir triniaeth arbennig ynddo, ac a roddir triniaeth arbennig ar sail beripatetig, ar sail safle sefydlog, ar sail symudol, ar sail dros dro, neu fel arall).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 62 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 62 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2